CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
2 Tachwedd 2016, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL : Cyng D I Roberts, S Hughes, E Williams, G Roberts, N Jones, R Edwards, J Evans (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Evans, R Davies, A Mummery (Cyngor Sir),	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 5 Hydref 2016. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon** - Darllenwyd ymateb gan Dafydd Rowlands, Adran Tai; " Ysgrifennaf atoch yn dilyn ymweliad safle a'r cyfle cefais i gyfarfod rhai o drigolion Bryn Ffynnon dydd Mawrth wythnos diwethaf. Ymhellach, cawsom y cyfle i drafod pryderon rhai o drigolion y stad ynglŷn â chyflwr y lon. Yn ystod yr ymweliad mynegodd y trigolion eu pryder ynglŷn â chyflwr y maes parcio yn ogystal â'r lon. Mi oedd yna ddealltwriaeth bod gwneud gwaith ar y raddfa yna am fod yn ddrud ac efalla ddim yn fforddiadwy i'r Cyngor/Gwasanaeth Tai. Mi nes i ofyn a bysa trigolion preifat y stad yn fodlon cyfrannu tuag at gynllun gwaith o'r math yma ond cefais yr argraff nad oeddynt yn ffafrio neu'n gefnogol I hynny. Mi nes i gytuno i gysylltu hefo'r Gwasanaeth Priffyrdd er mwyn trafod y sefyllfa a derbyn prisiau ar gyfer gwneud y lon yn unig a hefyd pris ar gyfer gwneud y lon a'r lle parcio. Ar ôl derbyn prisiau fy mwriad yw cyflwyno adroddiad i'r Tîm Rheoli Tai er mwyn penderfynu ar y ffordd ymlaen"
4.2	**Gor-yrru Penmynydd** - Darllenwyd ebost gan y Cyngor Sir " Rwyf nawr wedi derbyn y wybodaeth ar gyfer y safle parhaol ym Mhenmynydd sydd yn cofnodi llif a chyflymder traffig trwy'r pentref. Ar gyfer 2015, cyflymder canradd 85 oedd 49.5 milltir yr awr. Cyflymder Canradd 85 (85th Percentile) yw'r cyflymder ar neu yn is y mae 85% o holl gerbydau a gofnodwyd yn trafeilio ar. Hwn yw'r safon a ddefnyddir ar gyfer rhoi darlun o gyflymder traffig heibio pwynt penodol" Bydd y Clerc yn ymateb ac yn gofyn pa gamau y maent yn bwriadu eu cymryd.
4.3	**Cyflwr y coed ar tir y tai elusendai a dyfodol yr eglwys** - Mae'r Clerc wedi cynnig gwahoddiad i Cadw i siarad gyda'r Cyngor Cymuned ac yn disgwyl ymateb. Cytunwyd i ysgrifennu at yr Eglwys yng Nghymru yn datgan os nad oes ganddynt unrhyw diddordeb i ystyried trosglwyddo'r Elusendai i'r Cyngor Cymuned.
4.4	**Maes chwarae** - Mewn llaw
4.5	**Hysbysffwrdd Star** - Dywedodd Cyng N Jones bod swyddogion y Vintage Rally yn fodlon i'r hysbysffwrdd newydd cael ei osod wrth ymyl giatiau y safle. Hefyd maent yn cynnig i'r Cyngor Cymunedd defnyddio ystafell ar gyfer cyfarfodydd misol.
	Llofnod **Cadeirydd** **04.01.17**

4.6	**Mywent Gilead -** Mae Cyng M Jones wedi trafod y fynwent gyda swyddogion Rhos y Gad ac erbyn hyn, mae'r glaswellt wedi cael ei dorri. Mae angen torri y gwrych sydd yn tyfu drost y beddi. Cynigodd Cyng Jones cael gair gyda'r swyddogion.
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	41C139 cais llawn ar gyfer codi stablau ar dir rhwng yr A5 a'r rheilffordd, Star - dim sylwadau
5.2	41C134A Cais llawn ar gyfer codi annedd, codi modurdy ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau ar dir gyferbyn a Artwood, Star - dim sylwadau
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
6.1	**National Grid** - Ymgynghoriad Dywedodd y Cadeirydd bod Unllais Cymru wedi cynnig paratoi ymateb ar rhan y Cynghorau Cymuned
6.2	**BT** - Ymgynghoriad: Mae 61 o giosgau ffonau talu ar yr Ynys sydd wedi cael eu nodi a'u cynnig ar gyfer eu gwaredu gan BT oherwydd diffyg defnydd yn ystod y 12 mis diwethaf - dim sylwadau
8	**MATERION ARIANNOL**
	Dim
9	**MATERION ERAILL**
	Dim
8	**Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf**
	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **04.01.17**